# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar Ei Fawrhydi Brynbuga a Phrescoed

## Am y flwyddyn adrodd 1 Ebrill 2023 hyd 31 Mawrth 2024

Cyhoeddwyd Medi 2024

# Cynnwys


| **Adrannau Cyflwyniadol 1 – 3** | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Pwyntiau allweddol | 5 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 9 |
| 5. | Ymdriniaeth deg a thrugarog | 11 |
| 6. | Iechyd a lles | 15 |
| 7. | Cynnydd ac Ailsefydlu | 19 |
| **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | | |
| Ystadegau'r Bwrdd | | 22 |
| Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol | | 22 |
| **Atodiad A** | | |
| Darparwyr Gwasanaeth | | 24 |
| **Atodiad B** | | |
| Ystadegau ar hunan-niweidio, ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa, Gwaith Tîm) ac ymosodiadau | | 25 |


**Cyhoeddir holl adroddiadau blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar [www.imb.org.uk](http://www.imb.org.uk)**

# Adrannau cyflwyniadol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae'r Ddeddf Carchardai 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i bob carchar gael ei fonitro gan fwrdd monitro annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau'r gymuned y mae'r carchar wedi'i leoli ynddi.

Dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd ag o gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- fod yn fodlon gyda'r modd trugarog a theg yr ymdrinnir â'r rhai hynny a gedwir yn y ddalfa o fewn y carchar a chydag ystod a natur ddigonol y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau
- Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i i unrhyw swyddog y dirprwywyd iddo awdurdod fel y barno'n briodol, unrhyw bryder sydd ganddo
- adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gystal y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith y caiff y rhain ar y rhai sydd dan ei ofal.

Galluogi'r Bwrdd i ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn effeithiol. Mae gan ei aelodau'r hawl i gael gweld bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd gofnodion y carchar.

Cytundeb hawliau dynol rhyngwladol wedi'i ddylunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl a gânt eu hamddifadu o'u rhyddid yw'r Protocol Opsiynol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT). Mae'r protocol yn cydnabod fod pobl o'r fath yn arbennig o fregus a'i nod yw eu hatal rhag cael eu cam-drin trwy sefydlu system o ymweliadau â'r holl leoedd cadw neu gynnal arolwg ohonynt. Mae OPCAT yn ei gwneud yn ofynnol bod gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â lleoedd cadw, monitro'r driniaeth a gaiff y carcharorion a'r amodau y maent yn byw danynt a gwneud argymhellion i atal camdriniaeth. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanwaith Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad or Sefydliad

Mae Carchar Brynbuga a Phrescoed yn ddau garchar sector cyhoeddus wedi'u lleoli o amgylch tref Brynbuga yn ne-ddwyrain Cymru. Cânt eu rheoli gan un Llywodraethwr a gefnogir gan uwch-dîm rheoli.

- Carchar categori C i 276 o garcharorion[1] yw Carchar Brynbuga.
- Carchar agored categori D i 260 o garcharion yw Carchar Prescoed.
- Mae Canolfan Hyfforddi Fferm Cilwrgi yn galluogi carcharorion o Brescoed i weithio a chael hyfforddiant mewn amaethyddiaeth ac ystod o weithgareddau diwydiannol eraill.

**2.1 Agorodd Carchar** Brynbuga yn 1844. Mae'r carchar wedi'i leoli yn y dref ac mae iddo dair prif adain yn ymestyn allan o bwynt rheoli canolog. Carcharorion bregus sydd yn y rhain bellach, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi'u dyfarnu'n euog o droseddau rhyw. Mae mwy na 40% ohonynt dros 50 mlwydd oed.

Mae'r drefn wedi'i chynllunio i baratoi carcharorion ar gyfer cael eu rhyddhau'n ddiogel a gostwng y risg iddynt aildroseddu. Darperir rhaglenni triniaeth arbenigol (Horizon, Kaizen a Becoming New Me) i droseddwyr rhyw. Ceir adran addysg sy'n darparu cyrsiau gwaith coed a rheoli gwastraff yn ogystal â darparu sgiliau academaidd sylfaenol.

**2.2 Carchar agored categori D yw Carchar Prescoed** wedi'i leoli union y tu allan i dref Brynbuga.Ei nod yw galluogi carcharorion, sydd yn rhan olaf eu dedfrydau, i ailintegreiddio i'r gymuned cyn iddynt gael eu rhyddhau. Caiff cyflogaeth y tu allan i'r carchar ei annog. Cynigir ystod o addysg a hyfforddiant galwedigaethol trwy leoliadau gwaith ar y safle a hyfforddiant ar y safle.Mae hyn yn cynnwys rheoli gwastraff, gosod brics, toi, garddwriaeth ac arlwyo a lletygarwch.

**2.3 Uned loeren fferm weithio** yw Canolfan Hyfforddi Fferm Cilgwri, sy'n galluogi carcharorion o Brescoed i weithio a chael hyfforddiant mewn amaethyddiaeth, godro robotaidd, gweithredu peiriannau fferm, gyrru peiriant fforch godi a stocio deunyddiau mewn warws. Ychwanegwyd at hyn yn ddiweddar, iddo gynnwys cynnal a chadw rheilffyrdd a thraciau.  Mae hyn yn bwysig oherwydd gall y galwedigaethau hyn roi cyflogaeth gweddol ddiogel sy'n talu'n dda wedi i'r carcharorion gael eu rhyddhau.

[1]Gwybodaeth am reolaeth leol yw'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Maent yn adlewyrchu safle'r carchar adeg yr adrodd, ond efallai y byddant yn newid yn dilyn rhagor o ddilysu ac, felly, efallai na fyddant o hyd yn cyd-fynd ag Ystadegau Swyddogol a gyhoeddir yn hwyrach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## 3. Pwyntiau allweddol

### 3.1 Prif gasgliadau

Cred y Bwrdd fod yr uwch-dîm rheoli'n rheoli'r carchardai'n dda, gydag arweinyddiaeth a gweledigaeth gref y Llywodraethwr sy'n llywodraethu.Mae hyn yn rhoi'r cyfleoedd a'r canlyniadau gorau posib i garcharorion.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd â'r Llywodraethwr yn fisol ac yn codi unrhyw bryderon a phroblemau gydag ef er mwyn cael eglurhad. Ymatebir i'r rhain, cânt eu trafod a gweithredir arnynt pan fo'n briodol gwneud hynny.

### Diogelwch

- Mae carcharorion yn rhoi gwybod i'r Bwrdd eu bod yn teimlo'n ddiogel. Cadarnhawyd hyn mewn arolwg o ganfyddiadau carcharorion yn ystod y cyfnod adrodd. Erys nifer yr ymosodiadau rhwng carcharorion, bwlio ac achosion o hunan-niweidio yn isel.Ni bu digwyddiadau difrifol yn ystod y cyfnod adrodd.
- Mae'r Bwrdd wedi nodi y cyflwynwyd dogfennau newydd asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), sydd â'r nod o gefnogi carcharion y credir eu bod mewn perygl o ladd eu hunain neu niweidio'u hunain. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi'r staff yn dilyn y prosesau gofynnol.
- Roedd yr achosion o ddefnyddio grym yn isel iawn, gyda 12 digwyddiad ym Mrynbuga a dim ym Mhrescoed. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyn a arsylwodd y Bwrdd, sef bod y berthynas rhwng swyddogion a charcharorion, at ei gilydd, yn dda. Nid yw'r chwistrell PAVA (sy'n analluogi unigolyn) erioed wedi'i ddefnyddio yn y naill sefydliad na'r llall.
- Roedd y defnydd a wnaed o sylweddau anghyfreithlon yn y ddau safle'n isel ond erys problemau gyda charcharorion yn cyfnewid meddyginiaeth ar bresgripsiwn.Ni oddefir defnyddio cyffuriau: os bydd carcharor yn profi'n bositif i ganlyniadau cyffuriau Dosbarth A, caiff ei drosglwyddo i amodau caeëdig yng Ngharchar Prescoed.

### Triniaeth deg a thrugarog

- Noda'r Bwrdd y gwneir y mwyaf o'r amser a dreulir y tu allan i'r gell ac yn gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored, gyda charcharion yng Ngharchar Brynbuga'n cael treulio hyd at ddeg awr yr wythnos y tu allan i'w cell.
- Mae'r Bwrdd yn parhau i arsylwi perthynas gynhyrchiol, bositif rhwng staff a charcharorion ac yn nodi'r ymdrechion a wneir i gefnogi carcharorion â nodweddion gwarchodedig (sy'n cynnwys, ymhlith eraill, hil, crefydd, oedran, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Carchar Fictoraidd yw Carchar Brynbuga ond, er gwaethaf yr anfantais hon, noda'r Bwrdd fod canlyniadau ar gyfer carcharorion, at ei gilydd, yn dda. Er bod dau ddyn yn rhannu cell a ddylunwyd yn wreiddiol i un, mae'r amgylchedd y maent yn byw ynddo'n ddigonol a chefnogol. Os caiff carcharor ei asesu o ran risg a chanfyddir bod angen cell iddo fo'i hun, caiff un. Mae rhaglen ailwampio celloedd, a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, wedi gwella'r amodau byw - rhywbeth y mae'r carcharorion wedi'i werthfawrogi.

- Mae'n hawdd i garcharorion gael at gawodydd a mannau cyffredin, gyda lliftiau grisiau ar gyfer mynd i'r llyfrgell a'r ystafelloedd CAMEO (ystafelloedd cyfarfod).Ceir cyfleusterau i garcharorion na allant symud cystal gael cawod yn annibynnol.

**Iechyd a lles**

- Caiff anghenion iechyd a lles y carcharorion eu hasesu a'u bodloni'n briodol, gyda charcharorion yn bod yn gadarnhaol iawn am y gofal y maent yn ei gael.Daeth pennaeth gofal iechyd yn MBE am wasanaethau i ofal iechyd mewn carchardai.
- Mae'r Bwrdd yn bryderus nad yw'r sefydliad staffio gofal iechyd wedi cynyddu i adlewyrchu'r angen cynyddol ond mae'n nodi bod penodi fferyllydd dynodedig a thechnegydd fferyllol yn gadarnhaol . Adolygwyd y sefydliad staffio iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn ond ni chynyddwyd nifer y staff.Y cynllun oedd penodi ffisiotherapydd ond fe'i tynnwyd yn ôl gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chyngor Sir Fynwy.
- Noda'r Bwrdd nifer gynyddol y carcharorion hŷn sydd ag anghenion penodol yn ymwneud â'u symudedd cyffredinol.Mae cynllun yr Uwch-dim Rheoli i ailwampio'r celloedd yng Ngharchar Prescoed er mwyn cefnogi'r carcharorion hyn yn yr amgylchedd mwyaf priodol yn cael cefnogaeth lawn y Bwrdd.

**Cynnydd ac Ailsefydlu**

- Parhaodd Carchar Prescoed i lwyddo i ddarparu lleoliadau gwaith i garcharorion, er bod hyn yn dod yn fwyfwy anodd. Roedd y Bwrdd yn falch o weld fod arweinydd cyflogaeth y carchar wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol yn ystod y cyfnod adrodd.
- Mae'r Bwrdd yn bryderus am nifer fechan iawn o garcharorion a gaiff eu rhyddhau heb lety priodol, er gwaethaf ymdrechion gorau'r carchar.
- Noda'r Bwrdd yr amser cynyddol y mae'n ei gymryd i gytuno i ryddhau carcharorion ar drwydded dros dro wedi iddynt gael eu derbyn i Garchar Prescoed. Y rheswm am hyn yw oedi wrth gael gwybodaeth am asiantaethau allanol - rhywbeth sy'n rhwystredig i garcharorion.Unwaith y ceir cytundeb, 99.68% yw'r raddfa llwyddiant gyffredinol ar gyfer rhyddhau yn ystod y dydd a'r nos.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu'r cynnydd mewn cyfleoedd a chymwysterau addysgol i garcharorion yng Ngharchar Prescoed.
- Mae'r Bwrdd yn croesawu panelau cynnydd yr IPP (carcharu er mwyn gwarchod y cyhoedd), sydd wedi'u sefydlu yn rhan o'r Strategaeth IPP i Gymru i roi sylw i gynnydd carcharorion IPP.

**3.2 Y Prif feysydd i'w datblygu**

***I'R GWEINIDOG***

- Croesawodd y Bwrdd y gostyngiad yn nifer y carcharorion IPP, o 14 i 10, yn ystod y cyfnod adrodd ac maent yn ymwybodol o'r fframwaith

ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, roedd pryder o hyd ynghylch y ffaith nad oedd carcharorion IPP yn cael eu hailgategoreiddio.Beth yw cynlluniau'r Gweinidog i'r grŵp hwn o garcharorion?

- Mae'r Bwrdd yn cydnabod y pwysau ar fyrddau parôl ond mae'n parhau'n bryderus ynghylch yr effaith sylweddol ar garcharorion.Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu gostwng yr oedi mewn cynnal byrddau parôl?
- Mae gan y Bwrdd bryderon ynghylch nifer gynyddol y carcharorion nad ydynt yn symud cystal ac sydd ag anableddau eraill. Mae'r Bwrdd yn cydnabod cefnogaeth yr Uwch-dîm Rheoli i'r carcharorion hyn a'r mewnbwn gan y gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymhorthion. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau ynghylch cael cefnogaeth ar gyfer gofal cymdeithasol personol. Sut bydd y Gweinidog yn rhoi sylw i'r mater hwn?
- Mae gan y Bwrdd, hefyd, bryderon ynghylch staff gofal iechyd, oherwydd nifer gynyddol y carcharorion hŷn sydd ag anghenion iechyd cynyddol. Yn aml, mae gan y carcharorion hyn broblemau iechyd cymhleth ac mae gan rai nam gwybyddol, sy'n arwain at ymgynghoriadau hwy. Pa bryd y mae'r Gweinidog am adolygu'r sefydliad staffio gofal iechyd fel ei fod yn adlewyrchu'r cymysgedd o achosion sy'n newid a'r ehangu cynlluniedig?

***I'R GWASANAETH CARCHAR***

- Mae'r Bwrdd yn bryderus nad oes digon o swyddogion prawf. Mae hyn wedi'i godi mewn adroddiadau blaenorol.Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod yna brinder yn genedlaethol ond mae'n bryderus am yr effaith ar y staff a'r carcharorion presennol. Mae'r Bwrdd yn gofyn beth sy'n cael ei wneud i roi sylw i'r diffyg hwn?
- Mae'r ffaith bod carcharorion yn colli eiddo wrth drosglwyddo o garchardai eraill yn parhau i fod yn broblem ac nid yw wedi gwella er gwaethaf adrodd ar hyn yn rheolaidd ac yn genedlaethol. Mae'r Bwrdd yn bryderus fod y contract cyfredol ar gyfer trosglwyddo carcharorion yn gwaethygu'r broblem ac nad yw'n ystyried eitemau o werth i'r carcharorion, gan beri gofid diangen pan fyddir yn trosglwyddo carcharorion rhwng carchardai. Mae'r Bwrdd yn gofyn am i hyn gael ei flaenoriaethu.
- Mae'r Bwrdd wedi sylwi cynnydd yn nifer y carcharorion sy'n cael eu trosglwyddo i'r ysbyty, yn gleifion mewnol a chleifion allanol, a'r effaith ar staffio. Oherwydd natur frys yr achosion hyn, mae'r effaith ar niferoedd dyddiol swyddogion wedi arwain at gyfnodau clo ychwanegol yn ystod y dydd.Mae'r Bwrdd yn gofyn a ydyw nifer y staff wedi cynyddu i adlewyrchu hyn?
- Mae'r Bwrdd yn cefnogi cynlluniau'r Uwch-dîm Rheoli i ddynion fod yn absennol yng nghwmni swyddog os ydynt, o bosib, yn addas i fynd ymlaen i amodau agored, ond mae'n nodi'r oedi mewn cael cefnogaeth arweinydd polisi'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ar gyfer Rhyddhau Carcharorion ar Drwydded Dros Dro i hyn. Mae'r Bwrdd yn gofyn a oes modd prysuro'r penderfyniad hwn?

### 3.3 Ymateb i'r adroddiad diwethaf

| Codwyd y broblem | Rhoddwyd ymateb | Cynnydd |
|---|---|---|
| **I Weinidog Carchardai'r DU**<br><br>Mae'r Bwrdd yn | Wrth i nifer y | Fel y nodwyd |

| | | |
|---|---|---|
| nodi'r**gostyngiad parhaus ac**arwyddocaol yn nifer y dynion sy'n treulio dedfrydau amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoed (dedfrydau IPP) yng Ngharchardai Brynbuga a Phrescoed. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd ar ôl (gyda nifer dros gyfnod eu tariff yn sylweddol) yn gwybod eu bod yn treulio dedfryd y gwnaed i ffwrdd â hi. Mae nifer wedi disgrifio i'r Bwrdd y problemau iechyd meddwl a gafwyd yn sgil enbydrwydd eu sefyllfa. Ymunwn â Byrddau Monitro Annibynnol eraill wrth ofyn i'r Gweinidog gyflymu gwaith adolygu carcharorion sydd â dedfrydau IPP. | carcharorion IPP, sydd erioed wedi'u rhyddhau, barhau i ostwng, mae'r gyfran o'r rhai hynny sy'n parhau yn y carchar sydd wedi troseddu'n fwy difrifol ac y mae eu hachosion yn fwy cymhleth, yn tyfu. Mae'r carcharorion hynny'n parhau i fod wedi'u hasesu yn garcharorion sydd mewn perygl o gyflawni rhagor o droseddau treisgar neu rywiol a bod y risgiau y maent yn eu peri a'u hanghenion yn gymhleth. Rhaid rhoi sylw i'r rhain cyn y gall y bwrdd parôl ystyried a oes modd rheoli eu risg i'r cyhoedd yn ddiogel yn y gymuned dan oruchwyliaeth brawf. | gennym yn flaenorol, mae'r Bwrdd yn derbyn y pwynt cyffredinol o ran cymhlethdod yr achosion sy'n weddill ond mae'n nodi bod y cynnydd a welwyd wedi bod yn lleol yn hytrach nag yn genedlaethol. |
| **I'r Gwasanaeth Carchardai**<br><br>Mae'r Bwrdd yn bryderus nad oes digon o swyddogion prawf. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r problemau recriwtio yn y maes hwn. | Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi cael £155 miliwn o arian rheolaidd ychwanegol i recriwtio a chadw Swyddogion Prawf ychwanegol. Mae camau gweithredu bellach yn eu lle i wella gwaith recriwtio a chadw.<br><br>Allan o saith Swyddog Prawf llawn amser, mae yna bedwar yn lleol. | Ni nodwyd yr un. |
| **I'r Gwasanaeth Carchardai**<br><br>Mae gofyn gosod teleffonau mewn celloedd. | Bu oedi gyda'r gwaith gosod ym Mrynbuga oherwydd oed y carchar. Mae gofyn cael arian ychwanegol. | Mae yna deleffonau bellach yng nghelloedd Carchar Brynbuga. |

| | | |
|---|---|---|
| **I'r Gwasanaeth Carchardai**<br><br>Roedd angen disodli uned Lester. Crybwyllwyd hyn mewn sawl adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol. | Rhagwelir y bydd Prosiect y Weinyddiaeth Gyfiawnder o Ailwampio Celloedd yn sydyn yn dechrau yn 2024 ac yn parhau trwy 2025. | Mae uned Lester bellach wedi'i dymchwel. Gohiriwyd hyn oherwydd rhesymau amgylcheddol. Mae'r Bwrdd ar ddeall y bydd 44 o bodiau 'Byncaban' (unedau hunangynhwysol dros dro)yn disodli'r uned. |

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch

Dywed carcharorion eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ddau safle a thystiwyd i hyn yn yr arolwg cadarnhaol o ddiogelwch carcharorion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r Bwrdd yn cydnabod gwaith y grŵp dalfa fwy diogel ac mae'n cael adroddiadau misol.

### 4.1 Derbyn a Sesiwn Gyflwyno

Mae proses asesu gefnogol ar waith i'r carcharorion hynny sydd newydd gyrraedd, lle cânt becynnau gwybodaeth cynhwysfawr. Arsylwyd bod y dderbynfa a'r staff yn groesawgar.

Mae yna broblem barhaus gyda charcharorion sy'n cyrraedd yn hwyr, yn enwedig felly i staff gofal iechyd, gan eu bod yn aros yn y carchar ar ôl oriau gwaith arferol i asesu'r holl garcharorion newydd.Mae'r Bwrdd yn nodi y caiff carcharorion eu trosglwyddo weithiau heb eu meddyginiaeth. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd, hefyd, bod rhai carcharorion sydd wedi'u trosglwyddo'n hwyr, yn sâl iawn a bod angen sylw brys arnynt.

Mae gwrandawyr, wedi'u hyfforddi a'u cefnogi gan y Samariaid, wedi hen ennil eu plwyf yn y carchardai ac maent ar gael i gefnogi'r holl garcharorion newydd, os oes angen y gefnogaeth ychwanegol hon arnynt.

Mae'r Bwrdd yn nodi fod staff yn sensitif i'r problemau a wynebir gan garcharorion sy'n newydd i Gategori D. Dywed y carcharorion hyn yn aml wrth y Bwrdd eu bod yn cael trafferth gyda'r rhyddid a'r drefn rwyddach yng Ngharchar Prescoed. Maent yn cydnabod cefnogaeth y Gwrandawyr a'r swyddogion carchar ar yr adeg hon.

Mae'r Bwrdd yn bryderus ynghylch yr oedi cynyddol wrth ryddhau carcharorion ar drwydded dros dro oherwydd ffactorau allanol ac yn cydnabod gwaith y swyddogion carchar i gyflymu hyn.

### 4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa.

Ni chafwyd yr un hunanladdiad yn ystod y flwyddyn adrodd.

Roedd 26 achos o hunan-niweidio (gan 20 o garcharorion) yng Ngharchar Brynbuga ac un achos yng Ngharchar Prescoed yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â 54 (y cyfanswm am y ddau garchar) yn 2022-2023.

Roedd dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd.Yn ôl pob tebyg, roedd y ddwy yn farwolaethau naturiol gyda'r staff ar ddyletswydd yn ymdrin â nhw'n briodol.Mae'r Bwrdd yn nodi'r gefnogaeth a gynigir i garcharorion a swyddogion yn sgil marwolaeth yn y ddalfa.

Roedd 46 dogfen ACCT wedi'u hagor yng Ngharchar Brynbuga ac un yng Ngharchar Prescoed yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r carchar wedi gweithredu ar y dogfennau ACCT newydd. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi gwaith cwblhau'r dogfennau'n gynhwysfawr ac, yn bwysig, y gefnogaeth a roddir i garcharorion yn ystod y broses hon.

## 4.3 Trais a gostwng trais, hunanynysu

Parhau yn isel mae digwyddiadau treisgar yn y ddau garchar, sy'n cadarnhau barn y carcharorion eu bod yn teimlo'n ddiogel a sylwadau cyffredinol y Bwrdd yn ystod ymweliadau monitro.

Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oedd yna ddigwyddiadau treisgar yn erbyn staff.Roedd deg digwyddiad treisgar yn erbyn carcharorion (tri difrifol) yng Ngharchar Brynbuga ac wyth digwyddiad treisgar yng Ngharchar Prescoed yn ystod y cyfnod adrodd.Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 22 yn ystod 2022-2023.

## 4.4 Defnyddio grym

Nid oes chwistrell PAVA erioed wedi'i defnyddio yn y naill garchar na'r llall.Parhau yn isel mae'r achosion o ddefnyddio grym, gyda 12 digwyddiad yng Ngharchar Brynbuga a dim un yng Ngharchar Prescoed.

## 4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Y prif broblem yng Ngharchar Brynbuga yw cyfnewid meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Caiff carcharorion eu rhybuddio o beryglon hyn gan staff gofal iechyd a staff y carchar.Y prif broblem yng Ngharchar Prescoed yw defnyddio steroidau.

Yn yr arolwg diweddar o ddiogelwch carcharorion, dywedodd 0.7% o garcharorion (dau berson) yng Ngharchar Brynbuga ac 11% o garcharorion (chwe pherson) yng Ngharchar Prescoed nad yw'r carchardai'n gwneud fawr ddim i atal cyffuriau rhag cael eu smyglo i mewn i'r carchardai. Mae hyn yn cadarnhau bod y mwyafrif o garcharorion yn ymwybodol o bolisi dim goddefiad yr Uwch-dîm Rheoli tuag at gyffuriau.

Yng Ngharchar Prescoed, caiff cyfran o garcharorion sy'n dychwelyd oddi ar drwydded dros dro eu sganio am becynnau mewnol, un ai ar hap neu o ganlyniad i wybodaeth. Mae'r Bwrdd yn nodi natur gadarn y gwaith sgrinio hwn ac ymateb cyflymTîm Cymorth a Llywodraethiant Sganiwr Cyrff yr Uned Risg a Galluoeddpan fo'r sganiad cyntaf yn codi pryder.  Yn sgil canlyniad positif, caiff y carcharorion eu hasesu gan ofal iechyd a'u trosglwyddo i amodau caeëdig.

Caiff carcharorion eu dychwelyd yn awtomatig i amodau caeëdig os byddant yn methu prawf cyffuriau am gyffuriau Dosbarth A.

# 5. Triniaeth deg a thrugarog

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

Adeilad rhestredig Gradd 2 yw Carchar Brynbuga a godwyd yn y 19eg ganrif, gyda chelloedd ar gyfer un person yn unig. Bellach, mae dau berson yn rhannu'r celloedd gan amlaf, oni bai fod y carcharorion wedi'u hasesu yn ôl risg a chafwyd bod angen cell iddynt eu hunain arnynt.

Gyda dau berson yn rhannu cell i un a godwyd yn amser Fictoria, mae lle yn gyfyng yn y celloedd a cheir fawr ddim preifatrwydd ynddynt.Trwy ddewis yn unig y mae carcharorion yn bwyta yn eu celloedd.

Mae'r Bwrdd yn croesawu'r rhaglen ailwampio celloedd sydd ar waith ar hyn o bryd, lle caiff carcharorion welyau newydd a mwy o le i gadw eu pethau ac amgylchedd gwell. Mae'r carcharorion yn hapus gyda'r amodau byw gwell hyn.Cyflwynwyd teleffonau yn y celloedd yn ystod y flwyddyn adrodd ac mae'r carcharorion wedi gwerthfawrogi hyn.

Mae'r carchar o hyd yn lân, oherwydd gwaith caled a balchder y glanhawyr ( carcharorion y gellir ymddiried ynddynt sy'n cymryd gwaith i ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at gynnal y carchar). Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd rhaglen addurno helaeth sydd wedi goleuo'r mannau cyffredin a'u gwella.

Mae Carchar Prescoed yn fwy modern ac agorodd yn wreiddiol yn syth cyn yr Ail Ryfel Byd. Cafodd gwaith datblygu'r podiau 'byncaban' (unedau hunangynhwysol dros dro)yn ystod y pandemig Covid groeso da gan y carcharorion. Ar hyn o bryd, mae 40 o'r podiau hyn yn eu lle, gyda chynlluniau am 80 arall (bydd 44 ohonynt yn disodli uned Lester sydd wedi'i dymchwel).

Mae'r safle cyfan yn lân a gofelir amdano'n dda, yn debyg i Garchar Brynbuga.

Mae mynediad at y gwasanaethau golchi'n ddigonol ar y ddau safle ac anaml y caiff y Bwrdd sylwadau negyddol yn eu cylch.

Caiff yr holl brydau eu paratoi yng Ngharchar Prescoed. Mae'n anochel bod y Bwrdd yn derbyn sylwadau ynghylch bwyd, rhai cadarnhaol gan amlaf. Mae unrhyw sylwadau negyddol yn ymwneud â deiets arbennig. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi gwaith paratoi a gweini bwyd a chred ei fod yn amrywiol, y caiff ei weini'n deg a'i fod o safon uchel, yn enwedig felly o gofio faint o fwyd a gynhyrchir a'r gyllideb.Mae bocsys o ffrwythau ffres ar gael fel arfer.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyflwynwyd rhyw gymaint o waith paratoi a choginio bwyd i garchar Brynbuga. Roedd hyn yn rhoi rhagor o gyfleoedd cyflogaeth i garcharorion a golygodd fod rhai mathau o fwyd, megis brechdanau a sglodion, yn cael eu gweini'n ffresh.

Mae carcharorion wedi cwyno wrth y Bwrdd am brisiau cynyddol y ffreutur (system lle gallant brynu eitemau, megis pethau ymolchi, siocled, papur ysgrifennu ac ati) ac nad ydynt o hyd yn derbyn eu harchebion yn llawn. Pan ddigwydd hyn, gall gymryd sawl wythnos i gael ad-daliad.

## 5.2 Y berthynas rhwng staff a charcharorion, gweithwyr allweddol

Noda'r Bwrdd fod y berthynas rhwng staff a charcharorion yn parhau i fod yn dda.

Arsylwyd fod cyfathrebu rhwng staff a charcharorion yn gyson ac effeithiol, gyda sawl cyfle i gynrychiolwyr y carcharorion gwrdd â'r rheolwyr i godi materion neu gynnig awgrymiadau. Mae carcharorion o hyd yn agored gyda'r Bwrdd ac yn hapus i gael sgwrs am y drefn a'u problemau. Nifer fechan iawn yn unig o garcharorion sy'n gwneud sylwadau anffafriol am y drefn neu agwedd swyddogion y carchar.

Wrth fabwysiadu'r safonau amgylchedd galluogi, mae'r carchardai'n sicrhau bod yna gynrychiolwyr y carcharorion ar yr amrywiol ffyrddau a fforymau sy'n ymwneud â'r drefn a chânt eu hannog i gymryd rhan weithgar yn eu gwaith. Mae'r Llywodraethwr sy'n llywodraethu wedi cyflwyno cyfarfod i 'garcharorion oes', y mae o'n ei gadeirio, a chaiff ei werthfawrogi gan y carcharorion dan sylw.

Mae cyngor y carchar yn parhau i gyfarfod yn fisol, lle ceir pwyslais cadarnhaol ar gymuned y carchar, gan ddatrys problemau fel un. Nododd y Bwrdd ganlyniad cadarnhaol carcharorion sydd ar lefel uchaf y cynllun breiniau ac a gaiff barsel dillad blynyddol, yn unol â'r rhai hynny oedd yn y carchar am oes a charcharorion IPP. Roedd hyn yn ganlyniad i fater a godwyd am garcharorion sydd wedi colli cyswllt gyda theulu a ffrindiau wrth fod yn y carchar.

Mae'r Bwrdd wedi arsylwi cyfathrebu effeithiol â charcharorion a a chefnogaeth effeithiol iddynt gydag dogfennau ACCT ar waith. Mae'r Bwrdd wedi arsylwi pryderon swyddogion y carchar o ran y carcharorion a effeithir ac effaith gadarnhaol y cyfarfodydd aml-broffesiynol.

Parhau mae cefnogaeth gweithwyr allweddol yng Ngharchar Brynbuga, er fod y Bwrdd wedi nodi ychydig o drafferthion gyda hyn. Y rheswm am hyn yw bod gweithwyr allweddol yn gorfod mynd â nifer gynyddol o garcharorion am apwyntiadau ysbyty, rhywbeth sydd wedi cael effaith ar eu rôl fel gweithwyr allweddol. Mae'r Uwch-dîm Rheoli wedi rhoi sylw i hyn drwy fonitro'n ddyddiol i weld â gydymffurfir â gwaith allweddol i roi gwybod i'r swyddogion a ddefnyddir ar gyfer dyletswyddau danfon a rhoi cymaint o amser â bo modd iddynt wneud eu gwaith allweddol.

### 5.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cred y Bwrdd fod materion megis cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu rheoli'n dda gan y carchar. Dywed carcharorion â nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb, y bodlonir eu hanghenion penodol. Mae gan y carcharorion ddealltwriaeth dda o'r broses codi pryderon ac mae yna ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau gwahaniaethol (DIRF) ar gael yn rhwydd ar y ddau safle.Mae carcharorion yn parhau i ddweud eu bod yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant yn rheolaidd ac maent yn gyfarwydd â'r Ddeddf Cydraddoldeb ac anghenion carcharorion. Noda'r Bwrdd bod yna ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth, gydag arddangosfeydd a llenyddiaeth ar gael mewn gwahanol ieithoedd ar ystod o bynciau.Mae hyn yn cynnwys crefydd, LHDTC+, dementia, ymwybyddiaeth o anabledd ac iechyd meddwl, Sipswn, Mis Hanes Teithwyr a Roma a Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd.

Mae carcharorion yn cymryd rhan yn y 18 fforwm chwarterolm sy'n ymwneud â â'r nodweddion yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac yn adrodd yn gadarnhaol am y camau a gymerwyd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cyflwynwyd 26 o ffurflenni adrodd ar ddigwyddiadau gwahaniaethol. Mae hyn yn cymharu â 34 yn 2022-2-23 a 21 yn 2021-2022. O'r 26, cafodd saith eu cadarnhau, oherwydd homoffobia carcharor yn erbyn carcharor arall yn bennaf. Noda'r Bwrdd fod uwch-reolwyr profiadol yn ymchwilio i'r rhain yn drwyadl a chânt eu hanfon i Ymddiriedaeth Zahid Mubarek i gael sicrhau eu hansawdd.

Noda'r Bwrdd y cynhelir byrddau trawsryweddol amserol ar gyfer nifer fechan y carcharorion trawsryweddol.

Dethlir amrywiaeth o wyliau crefyddol, yn cynnwys Ramadan; Dathliad Tystion Jehofa a gynhelir wedi machlud yr haul ddydd Gwener y Groglith a Diwrnod y Bwda. Daw nifer dda o'r Uwch-dîm Rheoli, a'r tîm arlwyo yn enwedig, i'r rhain a chaiff hyn ei werthfawrogi gan y carcharorion.

Mae gan 72 o garcharorion anabledd cofrestredig.

Roedd y Bwrdd yn croesawu'r cynnydd yn y canolbwyntio ar niwroamrywiaeth a phenodiad dau reolwr cymorth niwroamrywiaeth. Mae ystafelloedd synhwyraidd wedi'u datblygu ar y ddau safle i garcharorion.

Mae'r rheolwr cymorth niwroamrywiaeth yn nodi'r carcharorion hynny sydd ag anghenion ychwanegol yn sgil ADHD, dyslecsia, anhwylder sbectrwm awtistig, anafiadau a gafwyd i'r ymennydd ac anableddau dysgu.(Amcangyfrifir fod 50% o boblogaeth y carchar yn niwroamrywiol.) Rhoddir cynlluniau cymorth ar waith a bydd y Bwrdd yn monitro effaith y rhain a rheolaeth gyffredinol carcharorion niwroamrywiol.

## 5.4 Ffydd a chymorth bugeiliol

Mae gan y carcharorion ystod o ffydd a chredoau. Ymhlith y rhain mae Bwdhaeth, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Sikhiaeth, Islam, Paganiaeth, Tystion Jehofa ac amrywiol ffurfiau o Gristnogaeth. Roedd y Bwrdd yn croesawu'r cynnydd dros dro mewn arian i roi cymorth sesiynol i anghenion ysbrydol carcharorion i adlewyrchu'r ystod eang hon.

Cynhelir fforymau ffydd yn fisol. Mae'r caplan yn rhan o sawl agwedd ar fywyd carcharor, megis rhoi cymorth i garcharorion ar ACCTau.Mae ffydd a materion bugeiliol yn rhan annatod o waith yr Uwch-dim Rheoli.

Cynhelir ystod eang o wyliau crefyddol. Yn aml mae gofyn newid y drefn a darpariaethau prydau ar gyfer y rhain ac mae'r carcharorion yn gwerthfawrogi hyn.

Pan fo marwolaeth yn y ddalfa, mae'r caplan yn cynnig cymorth i deuluoedd i drefnu cynhebrwng neu bydd yn trefnu'r cynhebrwng ei hun os nad oes teulu i wneud hynny. Yn sgil marwolaeth carcharor, cynhelir gwasanaethau coffa yng Ngharchar Brynbuga i garcharorion a staff.

Mae'r caplan yn gweithio gydag Age Cymru i roi cymorth gydag ysgrifennu ewyllys a chynllunio diwedd oes.

## 5.5 Cwynion

Mae'r Bwrdd yn monitro gwaith rheoli cwynion ac yn nodi fod carcharorion yn ymwybodol o'r broses. Mae ffurflenni cwynion (ffurflenni 1 a 2) a gwybodaeth ar gael yn rhwydd ar y ddau safle.

Cred y Bwrdd y caiff y broses gwynion ei rheoli'n dda a noda fod ymatebion yn barchus ac, at ei gilydd yn amserol. Mae problem barhaus gydag amseriad ymatebion i gwynion sy'n ymwneud â sefydliadau eraill.Lle ceir oedi, rhoddir gwybod i garcharorion yn rheolaidd am y datblygiadau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 583 o gwynion. Mae hyn yn cymharu â 689 yn 2022-2023 a 483 yn 2021-2022.

Er bod y cwynion yn ymwneud ag ystod o faterion, gyda llawer yn ymwneud â sefydliadau eraill, mae colli eiddo wrth drosglwyddo o un carchar i un arall yn broblem dragwyddol.

Mae'r Bwrdd wedi arsylwi'r broses am geisiadau gwrthrych am wybodaeth (pan fo carcharorion yn gofyn am gopi o'u holl wybodaeth bersonol) ac yn credu y caiff ei rhedeg yn dda.

### 5.6 Eiddo

Mae'r Bwrdd yn nodi'r broblem barhaus gydag oedi a cholledion sylweddol o ran eiddo wrth drosglwyddo carcharorion o garchar i garchar. Adroddwyd ar hyn mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae'r Bwrdd ar ddeall mai'r rheswm am hyn yw fod y contract ynghylch trosgwyddo carcharorion yn nodi'n benodol nifer yr eiddo pob tro y trosglwyddir carcharor. Mae'r Bwrdd hefyd ar ddeall nad yw hyn yn blaenoriaethu unrhyw eitemau drud (megis gemau consol) neu eitemau sydd o werth personol i garcharorion.

# 6. Iechyd a Lles

Roedd staff gofal iechyd yn bryder i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oherwydd yr oedi wrth recriwtio staff newydd a'r staff yn gyffredinol i adlewyrchu anghenion iechyd a lles y carcharorion hŷn.Roedd y Bwrdd yn falch y dyfarnwyd MBE i'r pennaeth gofal Iechyd

## 6.1 Gofal Iechyd yn gyffredinol

Ni chafwyd yr un arolwg gan Arolygiaeth Iechyd Cymru nac Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

Noda'r Bwrdd gefnogaeth yr Uwch-dîm Rheoli i ofal iechyd a'r cyfathrebu cadarnhaol a'r gweithio integredig ymhlith staff gofal iechyd, y caplan a swyddogion y carchar.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n darparu'r holl wasanaethau iechyd i Garchar Brynbuga a Charchar Prescoed. Maent yn rheoli'n uningyrchol yr adran iechyd sy'n cynnwys gwasanaethau nyrsio, fferyllol ac iechyd meddwl. Y Bwrdd Iechyd, hefyd, sy'n darparu gwasanaethau ysbyty cleifion mewnol a chleifion allanol ar gyfer y carcharorion.Mae'r Bwrdd yn croesawu presenoldeb parhaus nyrsys sy'n hyfforddi ac sydd ar leoliad yn y carchar.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dyfarnu ac yn monitro contractau i gontractau annibynnol. Gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gwasanaethau optometreg cyffredinol yw'r rhain.Nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon ynghylch amseroedd aros am y gwasanaethau hyn.

Gofal sylfaenol yw'r gwasanaeth gofal iechyd gan fwyaf ac mae ar gael rhwng 8am a 4.30pm, o ddydd Llun hydd ddydd Gwener, ar y ddau safle. Noda'r Bwrdd y caiff hwn ei ymestyn yng Ngharchar Prescoed tan 7pm bob yn ail ddydd Mercher er mwyn cynnig apwyntiadau arferol i'r carcharorion sy'n gweithio oddi ar y safle. Os bydd carcharor yn dweud nad yw'n teimlo'n dda y tu allan i'r oriau hyn, caiff gymorth trwy 111 neu eir ag o i adran frys ysbyty GIG.

Mae deintydd ar y safle ddau ddiwrnod yr wythnos a therapydd deintyddol ddiwrnod yr wythnos yn ystafelloedd deintyddol Carchar Brynbuga. Aiff carcharorion o'r ddau safle i weld y deintydd.Caiff carcharorion eu hannog i fynd at eu deintyddion lleol pan fyddant yn dychwelyd ar drwydded dros dro.Gall carcharorion fynd am wasanaeth deintyddol brys y tu allan i'r oriau hyn.

Darperir y gwasanaeth iechyd meddwl bedwar diwrnod yr wythnos, i'r ddau safle, gyda nyrs seiciatrig a therapydd galwedigaethol yn rhannu'r swydd. Yn ystod y flwyddyn adrodd, adolygwyd y sefydliad staffio gan y Bwrdd Iechyd ond ni chynyddwyd nifer y staff, rhywbeth oedd yn pryderu'r Bwrdd.Cyfeirir carcharorion at wasanaethau iechyd meddwl gofal eilaidd, lle bo raid.

Cadarnha'r holl ddogfennau ACCT y cymerir rhan lawn gyda staff gofal iechyd mewn adolygiadau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd nifer gynyddol o garcharorion newydd yn cyrraedd yn hwyr yn y prynhawn, weithiau heb eu meddyginiaeth ragnodedig ac weithiau ddim yn teimlo'n dda. O'r herwydd, caent eu trosglwyddo i Ganolfan Iechyd Malpas Brook neu ysbyty lleol.

Adroddodd Ymchwiliad Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i farwolaeth yn y ddalfa, yn ystod y flwyddyn a adolygwyd, bod y claf wedi cael safon uchel o ofal ac nad oedd argymhellion penodol i wella gofal. Gofynnodd yr Ymchwiliad Ombwdsmon Carchardai a Phrawf yn benodol fod rheolwyr hŷn yn cael gwybod am y casgliadau cadarnhaol yn yr adroddiad.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

Mae'r adran gofal iechyd yn cynnig gwasanaeth gofal sylfaenol llawn, gyda charcharorion yn cael gwirio eu gofal iechyd yn llwyr ac yn rheolaidd ac yn cael cynnig triniaeth a chymorth lle nodir hynny.Caiff carcharorion eu hannog yn weithredol i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer hepatitis B ac C.

Mae'r adran yn annog carcharorion i gael eu himiwneiddio ac mae wedi hyrwyddo pigiadau atgyfnerthu Covid, ymgyrchoedd niwmococol a fflw a'i gwneud yn hawdd i garcharorion sy'n gweithio y tu allan i'r carchardai gael y rhain.Cynhaliwyd prosiect peilot ynghylch petruster brechu yng Ngharchar Prescoed a hwn, bellach, yw'r safle lletyol ar gyfer y gwaith hwn.

Noda'r Bwrdd, hefyd, y wybodaeth a'r cymorth ar hyrwyddo iechyd ac sydd ar gael i garcharorion ar y ddau safle.

Mae'r Bwrdd yn bryderus am y galwadau cynyddol ar yr adran gofal iechyd oherwydd bod proffil oedran y carcharorion yn hŷn. Mae 72 o garcharorion wedi'u cofrestru'n anabl yn y carchardai ar hyn o bryd. Mae gan y rhain a charcharorion hŷn anghenion iechyd cynyddol, gan gynnwys dirywiad gwybyddol, sy'n cynyddu nifer a hyd yr ymgynghoriadau gyda staff.Bydd angen adolygu hyn a'r bwriad i gynyddu capasiti gweithredol (nifer uchaf y carcharorion y mae modd eu dal heb berygl difrifol i ddiogelwch, diogeledd, trefn dda a chynnal y drefn gynlluniedig yn dda) yng Ngharchar Prescoed, y sefydliad staffio a'r gofod ymgynghori.

## 6.3 Iechyd Meddwl

Adolygwyd y sefydliad iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r Bwrdd yn bryderus na chynyddwyd nifer y staff, er gwaethaf nifer gynyddol y problemau iechyd meddwl ymnhlith y carcharorion. Fodd bynnag, dywed carcharorion eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a ddarperir.Mae'r staff yn gweithio'n agos gyda'r caplan ac mae grŵp gitâr iechyd meddwl poblogaidd yn y capel.

Mae Gwrandawyr Profiadol, wedi'u hyffordi a'u cefnogi gan y Samariaid, ar gael i'r holl garcharorion.

## 6.4 Gofal cymdeithasol

Mae proffil oedran y carcharorion yn y ddau garchar yn parhau i godi. Fel yr adroddwyd ynghynt, mae'r llety yn y ddau safle yn arwain at anawsterau i garcharorion nad ydynt yn medru symud cystal.Mae'r Bwrdd yn croesawu cynllun yr Uwch-dîm Rheoli i newid y llety yng Ngharchar Prescoed fel bod cyfleuster gwell i'r rhai hynny nad ydynt yn symud cystal ac i'r rhai ag anabledd.

Mae'r ystafelloedd CAMEO, ar gyfer carcharorion hŷn, bellach wedi hen ennill eu plwyf ar y ddau safle ac mae'r carcharorion yn eu gwerthfawrogi. Caiff y rhain eu rheoli gan Fyddin yr Iachawdwriaeth ac maent yn ymatebol i anghenion y grŵp hwn o garcharorion ac yn eu cefnogi. Noda'r Bwrdd ystod y gweithgareddau i roi

cefnogaeth i garcharorion sydd wedi pasio oed ymddeol ac i dynnu eu meddyliau oddi ar bethau. Noda'r Bwrdd, hefyd, y gefnogaeth a estynnir i'r rhai hynny sydd yn y carchar am oes a chyn-filwyr trwy glybiau brecwast misol, gyda siaradwyr gwadd, a gynelir yn yr ystafelloedd Cameo.

Mae tîm o 'gyfeillion' wedi'u hyfforddi gan Gyngor Sir Fynwy i roi cefnogaeth i garcharorion nad ydynt yn symud cystal. Er nad yw hyn yn darparu gofal personol, mae'r gwasanaeth hwn yn cynorthwyo gyda symudedd cyffredinol, casglu prydau ac ati. Mae'r carcharorion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon.

Mae gan y Bwrdd bryderon ynghylch gofal personol i garcharorion sydd ag anawsterau symudedd neu wybyddol oherwydd, o gael sgyrsiau gyda'r carcharorion mwyaf bregus, gwyddys mai ychydig iawn sydd â mynediad at hwn.

Mae carcharorion yn gallu cael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol er mwyn cael cymhorthion y mae eu hangen arnynt i fyw o ddydd i ddydd. Fel arfer ceir y rhain gyda fawr ddim oedi.Noda'r Bwrdd fod y swydd ffysiotherapydd, swydd a gynlluniwyd ac a ariennir ar y cyd wedi'i thynnu'n ôl; mae hyn yn bryder.

## 6.5 Amser allan o'r gell, trefn

Mae'r bwrdd yn cymeradwyo trefn Carchar Brynbuga, sy'n cynnwys cyfnodau hir o gymdeithasu ac amser y tu allan i'r gell. Mae'r Llywodraethwr a'r Uwch-dîm rheoli'n wirioneddol ganolbwyntio ar wneud y mwyaf o hyn.

Yn ystod yr wythnos, treulia carcharorion ddeg awr y tu allan i'w cell, er bod hyn yn llai ar y penwythnosau. Mae'r Bwrdd ar ddeall mai hwn yw un o'r ffigurau gorau yn y DU, rhywbeth y mae'r carcharorion yn ei gymeradwyo ac yn ei werthfawrogi.

Yng Ngharchar Brynbuga, mae 93.01% o garcharorion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd pwrpasol. 95.88% yw'r ffigur hwn ym Mhrescoed.

Gall pob carcharor gymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd corfforol. Mae hyn yn cynnwys chwaraeon tîm, megis pêl-droed, rygbi a phêl-foli. Mae'r hyfforddwyr addysg gorfforol yn gydwybodol ac yn llwyddiannus wrth ymestyn allan i'r carcharorion hynny sy'n llai actif, y rhai sydd â heriau corfforol a'r carcharorion hŷn. Mae Dreigiau Casnewydd Gwent yn cynnig ymarferion rygbi.

Mae yna stoc dda o beiriannau ymarfer yn y ddwy gampfa ar y ddau safle, gyda thaflenni amser ar gyfer grwpiau gwahanol o garcharorion. Mae'r gampfa yng Ngharchar Prescoed yn arbennig o boblogaidd gyda'r carcharorion.

## 6.6 Adsefydlu yn sgil alcohol a chyffuriau

Nododd y Bwrdd ddatblygiad strategaeth gyffuriau newydd, sy'n canolbwyntio ar gyfyngu ar y cyflenwi, gan ostwng y galw a gwella adferiad. Caiff dull carchar cyfan ei annog er mwyn creu amgylchedd cefnogol, ynghyd â'r compactau cymhellion i fyw'n rhydd o sylweddau (ISFL) gyda charcharorion.

Caiff carcharorion eu dychwelyd yn awtomatig i amodau caeëdig os byddant yn methu prawf cyffuriau am gyffuriau Dosbarth A. Bydd carcharorion, y ceir eu bod wedi defnyddio cyffuriau Dosbarth B neu C, yn cael eu cyfeirio at yr uned rheoli troseddwyr a Dyfodol (arbenigwyr camddefnyddio sylweddau) y tro cyntaf iddynt dramgwyddo. Byddant yn dychwelyd i amodau caeëdig os byddant yn tramgwyddo wedi hynny. Mae'r Bwrdd yn croesawu'r newidiadau hyn.

Mae Dyfodol yn asesu ac yn cefnogi carcharorion â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac mae ganddo raglen adfer gynhwysfawr. Mae'n parhau i hwyluso'r rhaglenCHASE (dwysáu ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau trwy addysg),yng Ngarchar Prescoed.

Yn ystod y cyfnod adrodd, daeth y drefn profi drwy swabio a ddefnyddiwyd yn y cynllun ISFL, carchar cyfan oedd yn seiliedig ar gompact yng Ngharchar Prescoed, yn destun dadl ymhlith carcharorion, oedd yn amheus o gywirdeb y profion swab.Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am hyn. Gwrandawodd y Llywodraethwr a'r Uwch-dîm rheoli ac ymateb i bryderon y Bwrdd a chyngor y carchar. Mae'r drefn ISFL yn defnyddio profion dipio ac un bloc llety yng Ngharchar Prescoed yn unig a ddefnyddir ar ei chyfer bellach.

Gyrrir profion alcohol gan wybodaeth ac arsylwi.

### 6.7 Sgiliau meddal

Noda'r Bwrdd y berthynas barchus, at ei gilydd, sydd ymhlith swyddogion y carchar, carcharorion a'u teuluoedd. Mae cymorth swyddogion i ddiwrnodau i'r teulu (a ddaw â dynion a'u teuluoedd ynghyd y tu allan i'w hawl statudol, fel arfer mewn lleoliadau mwy anffurfiol)ac ymweliadau cymdeithasol Nadolig wedi'u gwerthfawrogi gan y teuluoedd a'r carcharorion. Gwerthfawrogodd y teuluoedd ddiwrnod Nadolig y teulu yng Ngharchar Prescoed a chafodd pob un plentyn anrheg gan Siôn Corn (yn rhoddedig gan Undeb y Mamau). Tynnwyd lluniau o'r teuluoedd a'u rhoi i'r carcharorion.

Mae arddangosfeydd, gwybodaeth ac adnoddau'n ymwneud â lles ar gael yn rhwydd yn y ddau garchar. Cynhelir ystod o ddigwyddiadau a chânt eu hysbysebu ar fyrddau hysbysebu ac yn newyddlenni'r carchardai.

Mae'r Gwrandawyr a'r cyfeillion gofal cymdeithasol yn weledol ac mae'r Bwrdd wedi arsylwi arnynt yn cymysgu'n gadarnhaol gyda charcharorion. Maent yn falch ac yn gadarnhaol iawn am eu rôl a'u cefnogaeth i'r carcharorion llai abl.

Mae ystafelloedd CAMEO ar y ddau safle, wedi'u rheoli gan Fyddin yr Iachadwriaeth. Maent yn rhoi cyfleoedd i dynnu meddyliau oddi ar bethau, cymdeithasu, ymlacio a dysgu, yn enwedig felly i'r carcharorion mwy bregus hynny a chânt eu gwerthfawrogi'n fawr.Mae hyn, bellach, yn cynnwys carcharorion IPP a'r rhai hynny sydd yn y carchar am oes, sydd wedi trefnu rota i ddefnyddio'r cyfleusterau golchi yn yr ystafelloedd CAMEO.

# 7. Cynnydd ac Ailsefydlu

## 7.1 Addysg, llyfrgell

Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, ailddylunwyd y cwricwlwm i roi sylw effeithiol i'r sgiliau craidd, sef rhifedd a llythrennedd, wedi'i gysylltu â chanlyniadau a sgiliau cyflogaeth oedd yn canolbwyntio ar waith, rhywbeth nad oedd ar gael yn flaenorol.

Mae hyn yn cael ei gyflawni ac mae grŵp sgiliau hanfodol yn helpu carcharorion gyda'r anghenion addysgol sylfaenol, sef rhifedd a llythrennedd, nad oedd wedi'u bodloni cyn iddynt gyrraedd y carchar.Mae'r ystafelloedd Cameo yn cynnig cyrsiau tebyg i garcharorion hŷn, rhywbeth a gaiff ei werthfawrogi.

Noda'r Bwrdd bod parhad gyda'r isod, yr adroddwyd arnynt ynghynt:

- Myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael benthyciadau i gael gliniaduron sy'n fodd iddynt barhau gyda'u hastudiaethau.
- Teledu addysg yn y gell gyda llyfrau gwaith yn ei ategu.
- Parhau gyda chyrsiau dysgu o bell a sefydlir gan Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion.

Mae stoc dda o lyfrau, cylchgronau a DVDs yn y llyfrgell a digon o adnoddau. Mae'r llyfrgellydd wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Shannon i hwyluso clybiau llyfrau misol ar y ddau safle.Mae hyn yn arbennig o boblogaidd yng Ngharchar Brynbuga.

## 7.2 Gwaith, hyfforddiant galwedigaethol.

Mae Carchar Prescoed yn parhau i lwyddo i ddarparu lleoliadau gwaith i garcharorion, er bod hyn yn profi'n gynyddol anodd. Mae'n arwyddol fod arweinydd cyflogaeth y carchar, Sonia Davies, wedi cael Gwobr  cenedlaethol Unlocking Summit 2023 am gyflawniad eithriadol. Roedd hyn yn benodol am wella canlyniadau cyflogaeth i garcharorion.

Mae'r Bwrdd yn nodi bod 28 o leoedd gwaith y tu allan wedi'u cymeradwyo i garcharorion oedd wedi dychwelyd ar drwydded dros dro

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd 93.01% o garcharorion yng Ngharchar Brynbuga yn gwneud gweithgaredd pwrpasol, gyda:

- 175 mewn cyflogaeth llawn amser
- 63 mewn cyflogaeth rhan-amser
- 16 yn ddi-waith

Yng Ngharchar Prescoed, roedd 95.88% o garcharorion yn gwneud gweithgaredd pwrpasol, gyda:

- 211 mewn cyflogaeth llawn amser
- 40 mewn cyflogaeth rhan-amser
- 4 yn ddi-waith

Am nifer o flynyddoedd, roedd oddeutu 120 o ddynion yn gweithio oddi ar y safle wedi dychwelyd ar drwydded dros dro, bob dydd. Yn dilyn pandemig Covid-19, syrthiodd hyn i oddeutu 100 ac mae wedi gostwng ymhellach o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r diffyg cyfleoedd gwaith yn sgil hyn.

Mae ymdrechion parhaus staff y carchar i wneud y mwyaf o gyfleoedd gwaith a pharatoi carcharorion am waith yn yr amgylchedd hwn sy'n mynd yn fwyfwy heriol, wedi creu argarff ar y Bwrdd. Er gwaethaf hyn, yn ystod y cyfnod adrodd, rhwng 72 ac 80 oedd nifer y carcharorion oedd yn gweithio oddi ar y safle Mae'r swyddi hyn yn tueddu i fod yn rhai a delir yn dda ac  mae nifer yn parhau wedi iddynt gael eu rhyddhau: Yn eu plith mae:

- Gyrru cerbydau nwyddau trwm
- adeiladwaith
- cynnal a chadw rheilffyrdd a thraciau
- gweithgynhyrchu
- stocio deunyddiau mewn warws
- rheoli gwastraff
- arlwyo a lletygarwch

Mae'r rhain wedi ei gwneud yn bosibl i nifer o garcharorion gael cyflogaeth broffidiol pan gawsant eu rhyddhau.

Rhoddir hyfforddiant galwedigaethol, bellach, yn yr adran arlwyo, gyda charcharorion yng Ngharchar Prescoed yn cael cymwysterau NVQ mewn arlwyo a lletygarwch. Yn yr un modd, cynigir hyfforddiant mewn rheoli gwastraff, gosod brics a thoi.

Yn ystod y cyfnod adrodd, agorwyd cyfleuster gweithgynhyrchu gwaith coed yng Ngharchar Brynbuga, sy'n rhoi hyfforddiant a gwaith diddorol i grŵp o garcharorion (troseddwyr rhyw) sy'n gweld mai bychan yw eu cyfleoedd yn aml. Mae hyn yn parhau i ddatblygu ac mae'n profi'n boblogaidd gyda'r carcharorion.

Mae'r Bwrdd yn bryderus bod carcharorion o Loegr yn gorfod gwneud cais yn unigol i'r Adran Gwaith a Phensiynau i gael arian ar gyfer cyrsiau, tra bo Gyrfaoedd Cymru'n ariannu cyrsiau'n awtomatig i garcharorion o Gymru.

### 7.3 Rheoli troseddwyr, cynnydd

Roedd 18,542 cyfnod o ddychwelyd yn ôl ar drwydded dros dro yn ystod y cyfnod adrodd.  Roedd 59 methiant, oherwydd prawf cyffuriau positif neu guddio eitemau anghyfreithlon, wrth ddychwelyd i'r carchar. Fodd bynnag, mae hyn yn cyfateb i raddfa lwyddo o 99.68%.

Mae gan yr Uned Rheoli Troseddwyr sesiynau ddwywaith yr wythnos ar gyfer carcharorion sy'n gweithio oddi ar y safle sy'n methu mynd i sesiynau yn ystod oriau gweithio arferol. Mae nifer dda o garcharorion yn mynd i'r rhain.

### 7.4 Cyswllt teuluol

Mae'r Uwch-dîm Rheoli'n annog cyswllt teuluol ac mae ganddo ystod o gyfleoedd ymweld cymdeithasol a diwrnodau i'r teulu trwy'r flwyddyn.

Dyfeiswyd y cynllun 'panda' croesawgar gan swyddog yng Ngharchar Brynbuga a chaiff ei gyflwyno i rannau eraill o'r carchar. Mae hwn yn amgylchedd croesawgar i blant ifanc o'r porth trwodd i neuadd yr ymwelwyr, gyda murluniau o bandas ar y waliau a phecynnau gweithgaredd i blant, ac ynddynt bandas. Mae neuadd yr ymwelwyr ar y ddau safle'n lân, yn olau ac yn groesawgar. Yng Ngharchar Prescoed, mae mannau chwarae meddal a gweithgareddau i blant o bob oed.Mae ystod o fwyd

a diod ar gael yn nau neuadd yr ymwelwyr ac mae cymorth ar gael i deuluoedd gan gynrychiolwyr Invisible Walls.

Cynhelir diwrnodau i'r teulu trwy gydol y flwyddyn, gyda gweithgareddau yn yr awyr agored pan fo'r tywydd yn caniatáu. Cynhelir barbeciws yn yr haf, gydag amrywiaeth o chwaraeon yn cael eu cynnal. Mae'r rhain yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd.

### 7.5 Cynlluniau ailsefydlu

Mae'r hwb ailsefydlu'n helpu carcharorion 12 wythnos cyn iddynt gael eu rhyddhau. Maent yn helpu gyda llety, ceisiadau am gyfrifon banc, Credyd Cynhwysol a budd-daliadau anabledd.

Mae carchar Brynbuga'n gweithio i gyflwyno system lle caiff carcharor sydd, o bosib, yn addas i fynd yn ei flaen i garchar agored, adael y carchar yng nghwmni swyddog. Yn y lle cyntaf, cyfyngir hyn i ddynion sydd wedi cael argymhelliad cadarnhaol gan y bwrdd parôl ond y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod yr argymhelliad hwnnw. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r cynllun hwn ond mae'n nodi nad oes ymateb gan arweinydd polisi y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar ddychwelyd yn ôl ar drwydded dros dro.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer aelodau'r Bwrdd a argymhellir | 15 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd. | 7 |
| Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. | 8 |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r sefydliad | 142 |

**Ceisiadau (Llythyrau carcharorion) at y Bwrdd Monitro Annibynnol**

| Côd | Pwnc | Y Flwyddyn adrodd flaenorol | Y Flwyddyn adrodd gyfredol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, yn cynnwys golchi, dillad, ymolchi | 2 | 0 |
| B | Disgyblaeth, yn cynnwys dyfarniadau, cynlluniau cymell, sancsiynau | 0 | 0 |
| C | Cydraddoldeb | 0 | 0 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, yn cynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, amser allan o'r gell | 4 | 4 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, teleffonau, gwarchod y cyhoedd, cyfyngiadau | 2 | 2 |
| E2 | Cyllid, yn cynnwys tâl, arian preifat, arian i'w wario | 2 | 0 |
| F | Bwyd a Cheginau | 1 | 1 |
| G | Iechyd, yn cynnwys gofal corfforol, meddyliol a chymdeithasol | 0 | 1 |
| H1 | Eiddo yn y Sefydliad | 4 | 0 |
| H2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo neu mewn cyfleuster arall | 2 | 2 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalogau | 0 | 0 |
| I | Rheoli dedfrydau, yn cynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ailgategoreiddio | 6 | 5 |
| J | Pryderon staff/carcharor, yn cynnwys bwlio | 0 | 1 |
| K | Trosglwyddiadau | 1 | 1 |
| L | Amrywiol | 6 | 3 |
| | **Cyfanswm nifer y ceisiadau** | **30** | **20** |

### 8.1 Sylwadau atodol am geisiadau:

**Ers 2019, mae'r Bwrdd wedi adolygu nifer y ceisiadau a gyflwynwyd gan garcharorion.** Yn 2023, fe ailymchwiliodd a ddylai'r niferoedd isel parhaus fod yn peri pryder. Ymhlith y rhychwant posibiliadau a ystyriwyd, roedd yr isod:

- Awgryma'r niferoedd bod carcharorion yn teimlo fod y berthynas rhwng carcharorion a staff yn foddhaus. Yr hyn a awgrymir yn yr achos hwnnw yw nad yw carcharorion yn teimlo bod angen cyflwyno ceisiadau ffurfiol.
- bod niferoedd isel yn arwydd negyddol, yn awgrymu nad yw carcharorion yn ymwneud â'r drefn, eu bod yn ofnus o ganlyniadau posibl (megis cael eu symud i garchar arall, er enghraifft) neu wedi'u dadrithio cymaint gydag effeithiolrwydd y Bwrdd nad ydynt yn trafferthu cyflwyno ceisiadau.

**Ein gweithredoedd a'n casgliadau ynghylch ceisiadau:**

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r hyn y mae'n ei weld yn elfennau allweddol. Ymhlith y rhain mae:

- Math y berthynas y mae aelodau'r Bwrdd yn ei arsylwi rhwng carcharorion a staff.
- Adborth y cawn yn ôl yn uniongyrchol gan garcharorion a'u cynrychiolwyr e.e. Gwrandawyr a chyfeillion.
- Roedd ein hadolygiad o wybodaeth rheoli yn ymwneud â dynion a ddychwelodd i amodau caeëdig, yn gysylltiedig â'n sylwadau ar y safle.
- Er mwyn caniatáu mynediad llawn at broses geisiadau'r Bwrdd Monitro Annibynnol, mae'r Bwrdd yn derbyn ceisiadau llafar.
- Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol, mae aelodau'r Bwrdd yn cario copïau sbâr o'r ffurflenni a gymeradwywyd i'r dynion eu llofnodi. Fel hyn, mae modd sicrhau eu bod yn darllen y rhybudd preifatrwydd a'u bod yn ymwybodol bod angen i aelodau siarad â staff i brosesu ceisiadau a'u bod yn cytuno â hynny.

Mae'r Bwrdd yn derbyn sylwadau (cadarnhaol a negyddol) gan ddynion a, phan fo gofyn, caiff y rhain eu pasio ymlaen i'r Uwch-dîm Rheoli trwy ein hadroddiadau monitro i'w trafod gyda'r Llywodraethwr yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Ymddengys bod hyn wedi gostwng yr angen am geisiadau trwy ddatrys problemau canfyddedig yn gynnar.

Awgrymwyd **yn flaenorol** y gallai'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau gael eu 'hanfon allan', yn gosb am gwyno. Yn y cyfnodau adrodd 2017-2018, 2020-2021 ac, eto, yn 2021-2022, ymchwiliodd y Bwrdd i mewn i hyn a chael nad oedd cysylltiad rhwng y rhai hynny oedd yn cyflwyno ceisiadau a'r carcharorion hynny a gafodd eu trosglwyddo i garchardai wedi hynny neu (yn achos Prescoed) ddychwelyd i amodau caeëdig.

**Ni chafodd y Bwrdd hyd i ddim tystiolaeth oedd yn cefnogi'r syniad fod nifer fechan y ceisiadau a dderbyniwn yn arwydd negyddol**. Barn y Bwrdd oedd fod carcharorion, at ei gilydd, yn gyfforddus yn cyflwyno ceisiadau ac y buasent yn gwneud pe byddent yn teimlo'r angen i wneud hynny. Mae carcharorion yn defnyddio'r system Comp1 (cwyn gyffredinol) ac, at hynny, yn trafod materion o bryder gyda'r Bwrdd. **Mae carcharorion o hyd yn fodlon siarad gyda'r Bwrdd am eu profiadau yn y carchar.** Bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r sefyllfa'n weithredol.

## Atodiad A

**Darparwyr gwasanaeth**

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw darparwr yr holl wasanaethau iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli'n uniongyrchol adran gofal iechyd nyrsys cofrestredig a'r fferyllydd, ynghyd â gwasanaethau iechyd meddwl a chleifion mewnol ac allanol ysbytai. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dyfarnu ac yn monitro contractau i gontractau annibynnol. Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Optometreg Cyffredinol yw'r rhain.
- Darperir tîm camddefnyddio sylweddau gan Dyfodol. Ariennir hwn gan Gomisiynydd Troseddau a Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Fawrhydi.
- Cyngor Sir Fynwy sy'n darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a therapi galwedigaethol.

## Atodiad B

**Ystadegau ar hunan-niweidio ac ACCT:** ffigurau o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2024

| | 2023-2024 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr achosion o hunan-niweidio | 27 | 54 |
| Nifer y dogfennau ACCT: Brynbuga: | 46 | 52 |
| Nifer y dogfennau ACCT: Prescoed | 1 | 2 |

**Ystadegau ar ymosodiadau:** ffigurau o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2024

| | 2023-2024 | 2022-2023 |
|---|---|---|
| Ymosodiadau ar garcharorion: Brynbuga | 10 | 22 |
| Ymosodiadau ar staff: Brynbuga | 0 | 4 |
| | | |
| Ymosodiadau ar garcharorion: Prescoed | 8 | 4 |
| Ymosodiadau ar staff: Prescoed | 0 | 0 |

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd person, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn imb@justice.gov.uk